# Ymgynghoriad ar ddiweddaru'r cynlluniau rheoli basn afon: Atodiad trosolwg o gynllunio

Mae'r atodiad trosolwg o gynllunio rheoli basn afon yn cefnogi'r cynlluniau drafft rheoli basn afon a ddiweddarwyd a chrynodebau dalgylch drafft. Mae'n rhoi'r manylion sy'n gefndir i'r penderfyniadau sydd wedi llywio'r dogfennau ymgynghori.

## Cefndir

Mae Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr Ewrop yn darparu'r prif fframwaith o ran rheoli'r amgylchedd dŵr trwy Ewrop. Yn ganolog iddo mae dull ecosystem sy'n gofyn am gymryd mesurau i annog defnyddio dŵr yn gynaliadwy ac amddiffyn a gwella dyfroedd wyneb mewndirol, dyfroedd daear a dyfroedd arfordirol, er mwyn cyflawni statws da. Mae'n cydnabod bod angen i grwpiau a chanddynt fuddiant gydweithio i ddylunio a gweithredu gwelliannau, gan reoli'r amgylchedd dŵr mewn ffordd gyfannol ac integredig.

Yn rhan o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, mae'n rhaid datblygu cynllun rheoli ar gyfer pob ardal basn afon. Cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru, fel awdurdod cymwys i weithredu'r gyfarwyddeb yng Nghymru, y rhain yn gyntaf ym mis Rhagfyr 2009. Amlinellodd y cynlluniau rheoli basn afon (y cynlluniau) y camau y byddai angen eu cymryd er mwyn i ragor o ddyfroedd gyflawni statws da erbyn 2015 a'r hyn yr oedd angen ymchwilio iddo i brofi a fyddai modd cyflawni hyn ar gyfer yr holl ddyfroedd erbyn 2027.

Mae'n rhaid adolygu a diweddaru'r cynlluniau, yn ogystal â'r amcanion a'r mesurau ynddynt bob chwe blynedd; felly bwriedir cyhoeddi cynlluniau wedi'u diweddaru ar gyfer pob ardal basn afon yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2015.

Dechreuodd Cyfoeth Naturiol Cymru, trwy gydweithio ag eraill, y broses o ddiweddaru'r cynlluniau presennol yn 2012. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyflwyno diweddariadau drafft i'r cynlluniau, a'r diweddariad drafft hwn yw'r brif ddogfen ar gyfer pob ardal basn afon sy'n crynhoi cyflwr presennol yr amgylchedd a'r diwygiadau arfaethedig i'r amcanion a'r mesurau.

Daw'r data a'r wybodaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r ymgynghoriad hwn o ganlyniad i'r gwaith a wnaethpwyd cyn diwedd mis Mai 2014. Defnyddir data a gwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn ac a gynhyrchwyd gan brosesau rheoli basn afon parhaus i lunio'r cynlluniau a fydd yn cael eu diweddaru yn 2015.

## Gwybodaeth ategol

Mae'r data canlynol ar gyfer pob corff dŵr yng Nghymru ar gael ar wefan Gwarchod Dyfroedd Cymru:

- Asesiadau Statws 2013
- Rhesymau dros beidio â chyflawni statws da
- Amcanion cyrff dŵr arfaethedig
- Rhesymau dros amcanion statws arall

## Yr hyn sy'n cael ei gynnwys yn y ddogfen

Mae **rheoli'r amgylchedd dŵr** (adran 2) yn disgrifio pam mae dŵr yn adnodd mor bwysig ac mae'n crynhoi'r polisïau, Ewropeaidd a domestig, sy'n llywio sut y rheolir yr amgylchedd dŵr yng Nghymru.

Mae'r **Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr** (adran 3) yn disgrifio nodau ac amcanion y gyfarwyddeb gan gynnwys gweithredu'r esemptiadau. Disgrifir y broses gynllunio ar gyfer rheoli basn afon yng Nghymru gan gynnwys sut y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydweithio ag eraill. Mae'r adran hon hefyd yn disgrifio sut y bydd y cynlluniau sy'n cael eu diweddaru yn 2015 yn cael eu datblygu yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Mae **diffinio a disgrifio'r amgylchedd dŵr** (adran 4) yn disgrifio sut y rhennir ac y nodweddir yr amgylchedd dŵr at ddibenion gweithredu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'n nodi sut y caiff yr amgylchedd ei fonitro a sut y defnyddir canlyniadau'r gwaith monitro hwnnw i asesu a llunio adroddiad ar statws yr amgylchedd dŵr. Mae rhan olaf yr adran yn disgrifio'r prif heriau sy'n effeithio ar reoli'r amgylchedd dŵr yng Nghymru, sut y mae risgiau'r dyfodol wedi'u hasesu ac yn nodi'r hyn sy'n achosi problemau ar hyn o bryd.

Mae **nodi camau gweithredu a chanlyniadau** (adran 5) yn disgrifio'r broses gyffredinol a ddefnyddir i bennu amcanion amgylcheddol, gan gynnwys amcanion statws cyrff dŵr. Mae'n disgrifio rôl arfarnu economaidd a'r amcanion arfaethedig yn yr ymgynghoriad hwn.

Mae'r **crynodeb o waith ymgysylltu** (adran 6) yn edrych ar y gwaith ymgysylltu rydym wedi'i wneud gan gynnwys mynediad y cyhoedd i wybodaeth, ymgynghoriadau a chipolwg ar y dyfodol.